Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hawdd ei ddeall



# Cynhyrchion plastig untro

## Mae’r gyfraith yn newid am rai cynhyrchion plastig yng Nghymru - Canllaw drafft



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Bil Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Canllaw drafft**’.

**Medi 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22.**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** plastiguntro@llyw.cymru

**Cyfeiriad:** Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **4**

Y gyfraith .......... 6

**Beth sy’n cael ei wahardd a phryd?** .......... **7**

A fydd cynhyrchion eraill sydd fel arfer yn cael eu defnyddio unwaith yn unig yn cael eu gwahardd? .......... 10

Mwy am y gyfraith .......... 11

Beth ddylai busnesau ei wneud nesaf? .......... 13


**Pan na fydd y gyfraith yn berthnasol** .......... **15**

**Mwy am beth sydd yn gallu cael ei ddefnyddio yn lle cynhyrchion plastig untro** .......... **18**

**Cefnogaeth i fusnesau** .......... **20**

**Geiriau anodd** .......... **22**

# Cyflwyniad




Dyma ganllaw drafft i gyfraith newydd yng Nghymru sy'n gwahardd rhai mathau o gynhyrchion plastig untro.



Mae llawer o sbwriel i'w gael ar draethau yng Nghymru sydd wedi'i wneud o gynnyrch plastig.



Mae'r cynhyrchion hyn ar gyfer pethau y mae pobl yn eu defnyddio i fwyta pan fyddan nhw allan. Er enghraifft, fforch blastig i'w fwyta gyda bwyd sy'n cael ei brynu o tecawê.




Maen nhw'n cael eu galw yn gynhyrchion plastig untro gan fod pobl fel arfer yn eu defnyddio unwaith ac yna'n eu taflu i ffwrdd.



Maen nhw yn aml yn cael eu taflu i ffwrdd heb feddwl.  Er enghraifft, ar lan y môr. Mae rhai cynhyrchion yn cael eu taflu i lawr y toiled.



Mae'r cynhyrchion yma yn achosi llawer o niwed i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.



Er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd, mae llawer o fusnesau yng Nghymru eisoes wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio cynhyrchion plastig untro.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pob busnes a sefydliad yn gwneud hyn yng Nghymru nawr.



Fe fydd hyn yn helpu i stopio'r cynhyrchion plastig yma rhag gwneud niwed i'n hamgylchedd a'n bywyd gwyllt.



Mae sefydliadau'n meddwl elusennau a sefydliadau gwirfoddol.



Rydyni ni eisisau gwneud Cymru'n fwy **cynaliadwy.**

Mae **cynaliadwy'n** meddwl gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n achosi ychydig neu ddim niwed i'r amgylchedd.

# Y gyfraith




Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn stopio defnyddio cynhyrchion plastig untro, rydyn ni wedi gwneud cyfraith newydd.



Mae'n cael ei galw yn **Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023**.




Fe fyddwn ni yn gwahardd rhai cynhyrchion plastig o 30 Hydref 2023.




Mae hyn yn meddwl na fydd busnesau a sefydliadau yn gallu rhannu na gwerthu'r cynhyrchion yma.

# Beth sy'n cael ei wahardd a phryd?




Mae 10 eitem yn cael eu gwahardd.



Efallai y bydd mwy yn y dyfodol, ond fe fyddwn ni yn gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl gyntaf.



Rydyn ni eisisau gwneud yn siŵr bod gan bobl amser i baratoi. Felly rydyn ni yn cyflwyno'r gwaharddiadau mewn **camau**.


**Gwaharddiadau Cam 1** – Fe fydd y rhain yn cael eu gwahardd o **30 Hydref 2023**:



- Platiau plastig untro



- Cytleri plastig untro – fel cyllyll, ffyrc a llwyau



- Troellwyr diodydd plastig untro




- Cwpanau wedi'u gwneud o rai mathau o polystyren



- Cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o rai mathau o polystyren



- Ffyn plastig ar gyfer balwnau



- Bydiau cotwm gyda bonyn plastig untro



- Gwellt yfed plastig untro – ar wahân i bobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol.

**Ebrill**
**2026**

**Fe fydd gwaharddiadau Cam 2** – yn dod i rym erbyn **Ebrill 2026.**

- Bagiau plastig defnydd untro.
- Caeadau polystyren ar gyfer cynwysyddion diodydd a bwyd.
- Cynhyrchion wedi'u gwneud o fath o blastig o'r enw plastig **ocso-ddiraddadwy**.



# A fydd cynhyrchion eraill sydd fel arfer yn cael eu defnyddio unwaith yn unig yn cael eu gwahardd?



Na. Mae yna rai cynhyrchion sy'n cael eu defnyddio unwaith yn unig na fyddwn ni yn eu gwahardd.



Mae hyn oherwydd eu bod yn gwneud llai o niwed i'r amgylchedd.



Er enghraifft, ffyrc pren neu bydiau cotwm gyda bonyn cardfwrdd.



Fe fydd y gwaharddiad yn berthnasol os ydy'r cynhyrchion yma wedi'u gorchuddio â phlastig. Er enghraifft, dydy plât papur ddim wedi'i wahardd. Ond os ydy wedi'i orchuddio â phlastig yna fe fydd yn cael ei wahardd.

# Mwy am y gyfraith



Dydy busnesau a sefydliadau ddim yn cael cyflenwi'r cynhyrchion yma sydd wedi cael eu gwahardd. Ond maen nhw'n dal yn gallu bod yn berchen arnyn nhw.



Os bydd aelod o'r teulu yn rhoi un o'r cynhyrchion sydd wedi'u gwahardd i berson arall, ni fydd yn torri'r gyfraith.



Mae hyn oherwydd bod y gyfraith yn berthnasol i fusnesau a sefydliadau yn unig. Mae hyn er mwyn eu stopio rhag bod ym mhob man.




Fydd busnesau y tu allan i Gymru ddim yn cael danfon nwyddau sydd wedi'u gwahardd i Gymru.



Fe fydd awdurdodau lleol (cynghorau) yn cael gweld ydy busnesau a sefydliadau yn dilyn y gyfraith.



Efallai y bydd yn rhaid i fusnesau sy’n torri’r gyfraith fynd i’r llys. Efallai y byddan nhw’n cael eu dirwyo.

# Beth ddylai busnesau ei wneud nesaf?



Mae angen i fusnesau ddechrau cynllunio ar gyfer y newidiadau yn y gyfraith.



Maen nhw yn gallu defnyddio'r stoc sydd ganddyn nhw.



Mae angen iddyn nhw feddwl am gynhyrchion eraill i'w defnyddio yn eu lle.



Mae'n well defnyddio cynhyrchion sydd yn gallu cael eu defnyddio eto. Ond fel arall, i ddefnyddio cynhyrchion sy'n well i'r amgylchedd. Er enghraifft, cyllyll pren.




**O 30 Hydref 2023 ymlaen, mae'n rhaid i fusnesau a sefydliadau:**



- Stopio darparu cynhyrchion sydd wedi cael eu gwahardd i gwsmeriaid.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod y gyfraith.
- Dweud wrth gwsmeriaid am y newidiadau.



- Peidio cael stoc dros ben. Ond os oes gennych chi stoc dros ben, cysylltwch â'ch cyflenwyr neu'ch cyngor i gael ei ailgylchu.



- Er enghraifft, mae rhai mathau o polysteren yn gallu cael ei ailgylchu.



- Fe fydd busnesau'n gyfrifol am gael gwared ar unrhyw stoc sydd dros ben a delio gydag unrhyw gostau.

# Pan na fydd y gyfraith yn berthnasol




Mae rhai sefyllfaoedd lle na fydd y gyfraith yn berthnasol.



Fe fydd busnesau'n dal i gael gwerthu'r cynhyrchion sydd wedi'u gwahardd ar dudalen 8 i fusnesau eraill.



Fe fydd pobl sydd angen defnyddio gwellt yfed untro oherwydd problem iechyd neu anabledd yn dal i gael eu defnyddio.



Oherwydd hyn fe fydd rhai busnesau neu sefydliadau yn cael gwerthu neu gyflenwi rhai cynhyrchion.



Mae’r manylion am y rhain yma:



**Gwellt:**

Fydd dim angen i bobl ddarparu prawf o broblem iechyd neu anabledd.




**Fferyllfeydd**

Fe fyddan nhw yn dal i allu gwerthu gwellt plastig i bobl sy’n dweud eu bod eu hangen am resymau iechyd neu anabledd.




**Busnesau**

Fe fyddan nhw yn cael darparu neu werthu gwellt i bobl os ydyn nhw yn credu bod eu hangen am resymau iechyd neu anabledd.



**Cwpanau**

Mae cwpanau wedi'u gwneud o polystyren estynedig yn cael eu gwahardd. Ond dim cwpanau untro eraill.



**Cynwysyddion bwyd tecawê**

Mae cynwysyddion wedi'u gwneud o polystyren estynedig yn cael eu gwahardd. Dydy cynwysyddion bwyd tecawê eraill ddim yn cael eu cynnwys.



Dydy llwyau sy'n dod gyda meddyginiaethau ddim yn cael eu gwahardd.

# Mwy am beth sydd yn gallu cael ei ddefnyddio yn lle cynhyrchion plastig untro



Rydyn ni wedi rhestru'r cynhyrchion sy'n cael eu gwahardd ar dudalen 8.



Mae bob amser yn well defnyddio cynhyrchion sydd yn gallu cael eu hailddefnyddio. Mae rhai enghreifftiau ohonyn nhw wedi'u rhestru i yma:

- Cerameg – er enghraifft plât tseina.
- Metel – er enghraifft cyllyll a ffyrc.



Weithiau dydy hi ddim yn bosibl ailddefnyddio rhywbeth. Er enghraifft, os ydych chi'n prynu bwyd o stondin fwyd neu tecawê.



Ond mae yna gynhyrchion sy'n llawer gwell i'r amgylchedd, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu defnyddio unwaith yn unig. Maen nhw yn:



- Papur a chardiau – er enghraifft, ar gyfer platiau, gwellt, cwpanau, neu fonion bydiau cotwm.



- **Bagasse** – er enghraifft ar gyfer cynwysyddion a chaeadau bwyd. Mae **bagasse** yn ddeunydd sych wedi'i wneud o gansen siwgr.



# Cefnogaeth i fusnesau

Busnes Cymru
Business Wales

Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg Busnes Cymru, sy'n wasanaeth cymorth i fusnesau.




Eu gwefan nhw ydy: [businesswales.gov.wales/cy](https://businesswales.gov.wales/cy)



Mae llawer o wybodaeth a chyngor ar y wefan yma. Gan gynnwys sut mae busnesau yn gallu arbed arian.



Mae Busnes Cymru yn defnyddio'r term **effeithlonrwydd adnoddau**. Mae hyn yn meddwl sut i arbed arian a bod yn fwy **cynaliadwy**.

Mae Busnes Cymru yn cyflogi pobl o'r enw **Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau**. Maen nhw yn gallu cefnogi a chynghori busnesau ar faterion fel:



- Lleihau costau a gwneud mwy o arian.




- Dilyn deddfau. Er enghraifft, am iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd.



- Gwella'r gweithle a'r amgylchedd lleol.



Eu manylion cyswllt ydy:

**Ffôn:** 03000 603 000

**Ebost:** BusinessSupport@gov.cymru




Maen nhw fel arfer ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm.

# Geiriau anodd

### Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl  gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n achosi ychydig neu dim niwed i'r amgylchedd.